©Iwan Williams



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY



BANGOR

# CYNADLEDDAU A DIGWYDDIADAU


## YM MHRIFYSGOL BANGOR

WWW.BANGOR.AC.UK/CWRDD

# AM OLYGFA, AM OGONEDDUS...

Gyda'i chyfoeth o hanes a mynyddoedd ysblennydd Eryri a thraethau godidog Môn ond taith ychydig funudau i ffwrdd, mae Bangor yn cynnig profiad digymar i ymwelwyr.

Mae Prifysgol Bangor, sydd ynghanol golygfeydd cyfareddol, yn gartref i ymchwil a chyfleusterau o'r radd flaenaf. P'un a oes gennych ddigwyddiadau mawr neu rai bychan cartrefol, gadewch i'r ardal brydferth hon eich ysbrydoli tra bo ein cyfleusterau ym Mhrifysgol Bangor yn hwyluso popeth i chi. Mae gennym dîm o staff ymroddedig wrth law i'ch cynorthwyo drwy gydol eich ymweliad gan sicrhau y bydd eich amser gyda ni yma yn un cofiadwy.







© Crown copyright (2014) Visit Wales

***Gosodwyd Gogledd Cymru yn y pedwerydd safel o'r rhanbarthau gorau" i ymweld â hwy yn 2017."***

LONELY PLANET

Menai Bridge



Cysylltwch â ni: + 44 (0) 1248 388088 | conferences@bangor.ac.uk

Neuadd Reichel



# REICHEL

Ar gael
**Trwy gydol y flwyddyn**

## Wedi'i chynllunio gyda steil a hyblygrwydd mewn golwg, Neuadd Reichel yw'r lle perffaith i amrywiaeth o ddigwyddiadau...

Mae Neuadd Reichel yn lle poblogaidd i gynnal hyfforddiant, cyfarfodydd, priodasau, cynadleddau a dyddiau cwrdd i ffwrdd. Mae'n rhoi hyblygrwydd i drefnwyr ddewis o blith amrywiaeth o ystafelloedd cyfarfod, sydd wedi'u lleoli'n hwylus wrth ymyl ein llety a chyfleusterau hamdden ar y safle.

Mae Neuadd Reichel yn lle helaeth a modern sy'n cynnwys nifer o ystafelloedd cyfarfod deniadol gyda golau dydd naturiol a'r holl gyfleusterau diweddaraf.

Gydag ystafelloedd unigol a all gynnwys hyd at 150 o westeion neu gynadleddwyr, mae'r neuadd wych hon yn gwbl briodol ar gyfer pob math o gyfarfodydd a digwyddiadau. Ceir derbynfa fawr, sy'n lle delfrydol i gofrestru neu i osod bwrdd croesawu. Ceir drysau'n agor allan i'r Teras mewn ychydig o'r ystafelloedd, sy'n rhoi cyfle i westeion fwyta yn yr awyr agored neu fwynhau'r awyr iach.

> ***Ysgrifennaf atoch i ddiolch i chi a'ch tîm am y gwasanaeth ardderchog yn ystod y gynhadledd... roedd y trefniadau'n berffaith, y bwyd yn flasus, a byddwn yn fwy na pharod i argymell Neuadd Reichel fel lle delfrydol i gynnal cynhadledd o'r fath.***
>
> Canolfan Peirianneg Niwclear

Ffestiniog



Dinorwig



## Cyfleusterau a Maint

Mae gan y mwyafrif o'n darlithfeydd ac ystafelloedd cyfarfod daflunydd data a chyfrifiadur sefydlog fel offer safonol, neu gellwch gysylltu eich gliniadur eich hun i'r taflunydd.

### Ystafell Fawr - **Neuadd Reichel**

| Dull Theatr | Ciniawa / Cabaret | Stondinau Arddangos |
|---|---|---|
| 150 | 110 | 20 |

### Ystafell Ganolig - **Penrhyn**

| Dull Theatr | Ciniawa / Cabaret |
|---|---|
| 70 | 60 |

### Ystafell Ganolig - **Ffestiniog**

| Dull Theatr | Ciniawa / Cabaret |
|---|---|
| 60 | 50 |

### Ystafell Ganolig - **Dinorwig**

| Dull Theatr | Ciniawa / Cabaret |
|---|---|
| 40 | 30 |

### Ystafell Fach - **Dorothea**

| Ystafell Bwrdd |
|---|
| 10 |

Neuadd Pritchard Jones



> ***Diolch unwaith eto am drefnu'r hyn a ddisgrifiodd llawer o'n cynadleddwyr - yn cynnwys rhai gyda phrofiadau rhyngwladol sylweddol - fel 'digwyddiad o safon gyda'r orau yn y byd'***
>
> Cynhadledd EEAC

Ystafell Cledwyn 3



# PRIF ADEILAD Y CELFYDDYDAU

Ar gael
**Gyda'r nos, penwythnosau a thu allan i'r tymor**

## Ychydig o fannau cynnal digwyddiadau a gwleddoedd a all gymharu â Phrif Adeilad y Brifysgol am steil, gwychder a rhwysg.

Ym Mhrif Adeilad y Brifysgol ceir nifer o ddarlithfeydd, neuaddau ac ystafelloedd cyfarfod, sydd ar gael tu allan i amser dysgu. Mae lleoedd mwy o faint yn cynnwys neuadd fawreddog Neuadd Pritchard Jones a Neuadd Powis gyda'r murlun trawiadol, sy'n cryfhau naws bensaernïol yr adeilad rhyfeddol hwn.

Ar gyfer digwyddiadau llai, mae Ystafelloedd Cledwyn yn ystafelloedd ffasiynol a chyfoes gyda golygfeydd dros y ddinas. Gyda'i bensaernïaeth fawreddog ac ysblennydd, mae'r Prif Adeilad yn lle delfrydol i gynnal cynadleddau a digwyddiadau o bob math.

Neuadd Powis



## Cyfleusterau a maint

Mae pob un o'n darlithfeydd yn cynnwys offer clyweled o'r safon orau.

### Ystafell Fawr - **Neuadd Pritchard Jones**

| Dull Theatr | Ciniawa / Cabaret | Stondinau Arddangos |
|---|---|---|
| **400** | **270** | **25** |

### Ystafell Ganolig - **Powis**

| Dull Theatr | Ciniawa /Cabaret |
|---|---|
| **200** | **90** |

### Ystafell Fach - **Ystafell Cledwyn 3**

| Ciniawa / Cabaret | Ystafell Bwrdd |
|---|---|
| **50** | **20** |

### Ystafelloedd Ychwanegol

Yn ogystal â'r ystafelloedd hyn, mae yna 20 ystafell arall ar gael. Cysylltwch â ni i gael mwy o wybodaeth os gwelwch yn dda.




“

***Roeddwn eisiau anfon e-bost yn syth i ddiolch i chi am ddiwrnod gwych iawn ddoe - er fod gennym amserlen heriol newydd mewn lleoliad anghyfarwydd fe aeth popeth yn hynod ddidrafferth ac roedd pawb mor barod i helpu.***

”

INCERTS

PL 5



# PONTIO

Ar gael
**Gyda'r nos, penwythnosau a tu allan i'r tymor**

## Mae tîm Cynadleddau Bangor yn eich croesawu chi i'r adeilad mwyaf trawiadol sydd gan Brifysgol Bangor i'w gynnig, Pontio - cartref y celfyddydau ac arloesi.

Pontio

Canolfan y celfyddydau ac arloesi flaengar yw Pontio sy'n cynnig ystafelloedd hyblyg ar gyfer cynadleddau a dewis eang o gyfleusterau bwyd a diod, a all gael eu neilltuo i'ch defnydd chi. Yno hefyd ceir theatr ganolig ei maint, sinema ac ystafelloedd stiwdio.

Gall Ystafell Cemlyn Jones ar Lefel 2 ddal hyd at 150 mewn dull theatr a gellir ei defnyddio hefyd ar gyfer ciniawau a gweithdai.

Ar lefel 5, ceir darlithfa fawr, a all ddal hyd at 450. Ar y lefel hon hefyd ceir gofod dysgu cymdeithasol sy'n berffaith fel lle ar gyfer trafod mewn grwpiau llai.

## Cyfleusterau a maint

Taflunydd data a chyfrifiadur sefydlog yw'r offer safonol, neu gellwch gysylltu eich gliniadur eich hun i'r taflunydd.

Ystafell Fawr - **PL 5**

| Seddau Sefydlog |
|---|
| **450** |

Ystafell Ganolig - **Ystafell Cemlyn Jones**

| Dull Theatr | Ciniawa / Cabaret | Stondinau Arddangos |
|---|---|---|
| **200** | **110** | **20** |

Ystafell Cledwyn Jones





> ***Cafodd yr holl fwydydd sawrus groeso brwdfrydig, a'r ffrwythau hefyd, a gyflwynwyd mewn ffordd mor ddeniadol – ond achosodd y brownies dipyn o gynnwrf – roedden nhw MOR boblogaidd.***

Academi Ffotoneg Cymru @ Bangor (PAWB)



# BLASUS A FFRES


Credwn fod bwyd rhagorol yn rhan allweddol o gynhadledd lwyddiannus.

Rydym yn deall pwysigrwydd bwyd da yn ystod eich digwyddiad, a dyna pam mae ein tîm arlwyo rhagorol yn darparu amrywiaeth hyblyg o'r safon uchaf. O frechdanau neu fwffe cyllell a fforc i giniawau ysblennydd a barbeciws, gallwn gynnig gwasanaeth arlwyo cyflawn i'ch cynhadledd neu ddigwyddiad.

Mae ein tîm o gogyddion profiadol yn cymryd pleser mewn creu prydau cytbwys a blasus, gan ddefnyddio cynnyrch lleol a masnach deg lle bynnag y bo modd. Gallwn roi sylw i bob math o ofynion dietegol arbennig. Mae ein canapés cartref, seigiau sawrus, cacennau a phwdinau yn tystio i'n hymroddiad i gynhyrchu danteithion hynod flasus.



Yn agos i Church Bay



© Crown copyright (2014) Visit Wales

> ***Cyfforddus, cynnes a hynod lân. Brecwast poeth da. Gwerth da am arian - byddwn yn dod eto.***

Adolygiad o'r llety

Ystafell wely sengl en-suite



# YMLACIO A DADFLINO

Pan fyddwch yn cynnal digwyddiad ym Mhrifysgol Bangor, yn ogystal â chael llety fforddiadwy a chyfleus ar y safle, gallwch chi a'ch cynadleddwyr fwynhau mynediad i amrywiaeth o gyfleusterau.

Trwy gydol y flwyddyn rydym yn cynnig ystafelloedd safon ansawdd Llety Campws 4* gan Croeso Cymru. Gallwch archebu eich ystafelloedd ar lein www.bangor.ac.uk/aros. Tu allan i'r tymor dysgu gallwn gynnig cannoedd mwy o ystafelloedd sydd wedi derbyn safon ansawdd llety campws 3-4* gan Croeso Cymru, perffaith ar gyfer cynadleddau preswyl a digwyddiadau mawr.

Mae ein pecyn llety rhesymol ei bris yn cynnwys dillad gwely, tyweli, sebonau a gwasanaeth ystafell. Ceir cyfleusterau gwneud te a choffi ym mhob ystafell a gallwch ddefnyddio WIFI y brifysgol ar y safle. P'un a oes angen llety arnoch i'ch cynadleddwyr neu os ydych chi'n bwriadu aros a mwynhau'r ardal leol, mae ein llety wedi'i leoli'n ganolog ar gyfer ymweld â'r hyn sydd gan Ogledd Cymru i'w gynnig.

## Canolfan Brailsford

Os ydych yn mwynhau chwaraeon ac ymarfer, mae gennym yr union le i chi. Mae Canolfan Brailsford, canolfan chwaraeon y brifysgol, yn lle delfrydol i gadw'n heini ar ôl diwrnod prysur o gynadledda. Mae croeso i ymwelwyr a chynadleddwyr ddefnyddio'r cyfleusterau chwaraeon a ffitrwydd a chodir prisiau staff arnynt fel rheol. Mae yna gyfleusterau dan do ac awyr agored ar gyfer pob math o chwaraeon a gweithgareddau ffitrwydd.

Sinema Pontio



Canolfan Brailsford



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY









## CYSYLLTWCH Â NI:


+ 44 (0) 1248 388088

conferences@bangor.ac.uk

WWW.BANGOR.AC.UK/CWRDD


BANGOR

# CYNADLEDDAU A DIGWYDDIADAU

YM MHRIFYSGOL BANGOR